**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCyllid@senedd.cymru

17 Ionawr 2023

Annwyl Peredur,

**Newidiadau Arfaethedig i Brotocol y Gyllideb**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Rhagfyr yn gofyn am adolygiad o Brotocol presennol y Gyllideb.

Rwy'n cydnabod yr amgylchiadau eithriadol roedd angen eu rhoi ar waith dros y blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i ansicrwydd ynghylch digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU a'r effaith y mae hyn wedi ei chael ar ein hamser paratoi ein hunain. Rwyf hefyd yn ymwybodol i'r protocol hwn gael ei lunio'n wreiddiol gyda golwg ar Gyllideb Wanwyn gan Lywodraeth y DU, a Chyllideb mewn dwy ran gan Lywodraeth Cymru i'w chyhoeddi ym mis Hydref.

Er gwaethaf yr amgylchiadau hyn, mae Protocol presennol y Gyllideb wedi bod yn effeithiol o ran rhoi inni'r hyblygrwydd sydd ei angen er mwyn ymateb. Rwyf hefyd wedi croesawu dull adeiladol y Pwyllgor Cyllid yn ystod y cyfnod, ac elfennau pwysig sydd wedi'u cyflwyno megis cynnal dadl y Pwyllgor Cyllid cyn toriad yr haf.

Fodd bynnag, rwy'n cydnabod drwy hyn nad ydych chi wedi cael y sicrwydd sydd ei angen arnoch er mwyn craffu ar y Gyllideb Ddrafft. Wrth inni barhau i wynebu rhagor o amhendantrwydd gan Lywodraeth y DU ynghylch pryd y cynhelir digwyddiadau cyllidol – megis Datganiad Gwanwyn y DU ar 15 Mawrth a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sef ychydig ddiwrnodau ar ôl ein Cyllideb Derfynol – mae'n werth ystyried ffyrdd o addasu i'r amgylchiadau hyn yn well.

Ar y sail hon, rwy'n awgrymu ein bod yn cyfarfod maes o law eleni i drafod y ffordd orau o ymdrin â'r newidiadau rydych wedi eu cynnig. Byddwn hefyd yn awgrymu bod eich clerc a'ch swyddogion cymorth yn gweithio gyda'm swyddogion dros y misoedd nesaf i ymchwilio i'r

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gwaith hwn ymhellach ac i edrych ar feysydd lle y gall fod tir cyffredin rhyngom o ran y newidiadau y mae angen eu gwneud.

Byddaf yn gofyn i'm swyddogion gysylltu â'ch clerc i wneud y trefniadau, ac rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes.

Yn gywir

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**